Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Dŵr Potel

26 Medi 2017

**Cais am Wybodaeth.**

Ymhellach i'r ymateb interim a gawsoch ar 11 Medi, mae ein hymateb i'r trydydd cwestiwnwedi'i nodi isod, pan ofynnwyd:

3. *Faint wnaeth eich sefydliad ei wario ar ddŵr potel yn benodol ar gyfer ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd Pwyllgorau allanol, Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau yn ystod blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16 a 2016/17?*

| Blwyddyn Ariannol | Cyfanswm y gwariant ar ddŵr potel |
|---|---|
| **2014/15** | £111.60 |
| **2015/16** | £257.45 |
| **2016/17** | £187.40 |

**Sylwer:** Ni ellir cofnodi dŵr a brynwyd fel rhan o archeb ehangach am letygarwch allanol gan mai dim ond y cyfanswm fesul pen a gaiff ei nodi yn ein cofnodion.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF